# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 07 Mai 2025

**<u>Yn bresennol (o bell)</u>**
Y Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd T Evans, y Cynghorydd C George, Y Cynghorydd SL Hancock MBE, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, y Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Dr R Plummer, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, y Cynghorydd A Tinley, y Cynghorydd V Thomas, y Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**<u>Hefyd yn bresennol:</u>**
Arwel Evans (Swyddog Cadwraeth Ffermio), Charles Felgate (Cyfreithiwr), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Gayle Lister (Swyddog Cynllunio – Cynllunio Strategol), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) a Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu).

[Cyfarfod Ar-lein, 10.00am – 13.15pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd B Price.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd y Cynghorydd V Thomas fuddiant yn adroddiad 17/25, Cadarnhad o'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) arfaethedig. Datganodd Dr R Plummer fuddiant yn adroddiad 19/25, y Llythyr Cylch Gwaith. Datganodd Charles Felgate, Cyfreithiwr yr Awdurdod, fuddiant yn yr eitem ar Ynni Gwynt Arnofiol Llŷr ar y Môr, gan ddweud ei fod wedi cynrychioli nifer o fusnesau o fewn y diwydiant yn y gorffennol, fodd bynnag, nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem hon.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2025 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2025.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**
Nododd yr Aelodau y log gweithredu.

**Nodwyd.**

5. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr Mynediad a Hawliau Tramwy yr Awdurdod, Anthony Richards, oedd wedi ymddeol ar ôl 28 mlynedd o wasanaeth i'r Awdurdod.

Hefyd diolchodd y Cadeirydd i Sanna Duthie, y rhedwraig pellteroedd eithafol, oedd wedi gosod yr her iddi hi ei hun o redeg Llwybr Arfordir Sir Benfro o un pen i'r llall mewn llai na 50 awr, gyda'r elw codi arian yn mynd i Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i dynnu sylw at newidiadau yn Aelodaeth yr Awdurdod, a chadarnhaodd y byddai'r Cynghorydd M Wiggins yn rhoi'r gorau yng Nghyfarfod Blynyddol Cyffredinol Cyngor Sir Penfro i fod yn gynrychiolydd y Cyngor ar yr Awdurdod, ac y byddai'r Cynghorydd S Alderman yn dychwelyd i'r Awdurdod yn ei lle. Ychwanegodd y Cadeirydd bod tymhorau dau Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi dod i ben, sef Mrs J James a Dr R Heath-Davies. Diolchwyd i'r tri Aelod am eu cyfraniadau sylweddol i'r Awdurdod.

Cyhoeddodd y Cadeirydd farwolaeth David Morgan, oedd wedi gweithio i'r Awdurdod hyd at 2012 ac wedi gadael gwaddol parhaol yn sgîl ei waith yn yr adran Bolisi.

Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd ei bod hi a Tegryn Jones wedi mynychu Fforwm Prif Weithredwyr a Chadeiryddion y Parciau Cenedlaethol ym Mharc Cenedlaethol y Peak District, a bod hynny wedi bod yn gyfle da i rannu arferion gorau a heriau.

**Nodwyd.**

6. **Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried:

i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 05/03/2025.
ii) Y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 12/02/2025.
iii) Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19/02/2025.
iv) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 12/03/2025.

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

7. **Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) ar Wersylla a Charafanau**
Cyn cyflwyno'r adroddiad, tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod llythyr o wrthwynebiad wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau ynghylch yr eitem hon

ychydig cyn y cyfarfod. Oedodd y Cadeirydd y cyfarfod am bum munud i roi cyfle i'r Aelodau ddarllen y llythyr yn drylwyr.

Yna cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu yr adroddiad oedd yn cadarnhau'r Cyfarwyddyd arfaethedig o dan Erthygl 4 (1) ar gyfer defnyddio tir am 28 diwrnod ar gyfer gwersylla, carafanau a/neu gartrefi symudol.

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi bod yn monitro'r sefyllfa o ran gwersylla yn ardal y Parc Cenedlaethol ers blynyddoedd lawer ond eu bod wedi dechrau'r broses o drafod opsiynau i gyflwyno rheolaethau ychwanegol fis Hydref 2023. Bu ymgynghori helaeth, a chyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghori i'r cyfarfod, a gofynnwyd i Aelodau'r Awdurdod yn awr wneud penderfyniad ffurfiol ynghylch a ddylid cadarnhau'r hysbysiad o'r Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) fyddai'n dod i rym ar 1 Ionawr 2026 pe bai'n cael ei gytuno.

Holodd Aelod faint o adnoddau oedd gan yr Adran Gorfodi i brosesu unrhyw geisiadau allai gael eu sbarduno pe bai Erthygl 4(1) yn cael ei gymeradwyo. Cadarnhaodd y Swyddog bod adnoddau ychwanegol wedi'u neilltuo i'r Tîm Gorfodi, ac yn ogystal, y gallai'r cynnydd cyffredinol posibl mewn ffioedd cynllunio hefyd gynorthwyo'r Awdurdod yn y cyswllt hwn. Eglurodd y Swyddog y byddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) o fudd i'r Tîm Gorfodi gan y byddai'n ofynnol i ymgeiswyr hysbysu'r Awdurdod o leoliad eu safle a'u dyddiadau gweithredu, fyddai o gymorth i'r tîm mewn unrhyw achosion gorfodi posibl ac yn debygol o leihau eu llwyth gwaith.

Dywedwyd, yn dilyn sawl degawd o bolisïau cynllunio oedd yn cyfyngu ar ddatblygu safleoedd gwersylla a charafanau newydd yn yr ardal, bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi comisiynu astudiaeth newydd yn 2015 i archwilio faint o gapasiti oedd yn yr ardal i gynnwys mwy o safleoedd heb gael effaith andwyol ar y dirwedd. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad mai capasiti cyfyngedig iawn oedd mewn rhai lleoliadau, tra bod lleoliadau eraill eisoes yn llawn. Gofynnodd Aelod a fyddai'r capasiti cyfyngedig yn effeithio ar geisiadau yn y dyfodol am safleoedd gwersylla a charafanau, a chadarnhaodd y Swyddog, er y byddai'r capasiti yn ystyriaeth berthnasol, y byddai'r Awdurdod yn edrych ar bob cais fesul achos.

Gofynnodd Aelod a fyddai goblygiadau i safleoedd ar dir amaethyddol 'gwell neu fwy amlbwrpas', ac ymatebodd y Swyddog ei bod yn debygol mai prin fyddai'r goblygiadau ar gyfer ceisiadau 28 diwrnod. Ychwanegodd, ar gyfer ceisiadau am gyfnod hirach neu geisiadau oedd angen unrhyw seilwaith parhaol, y byddai angen i'r Swyddogion ystyried hynny ymhellach.

Tynnodd Aelod sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru (LlC) yn y broses o ymgynghori ar ganiatáu hyd at 60 diwrnod ar gyfer safleoedd gwersylla a charafanau fel datblygiad a ganiateir, a chodwyd y cwestiwn sut y byddai'r newid hwn yn cael effaith ar yr Awdurdod petai’n dod i rym. Ymatebodd y Swyddog, gan mai dim ond yn y cyfnod ymgynghori yr oedd LlC, y byddai'n debygol o gymryd peth amser i'r mater gael ei ddatrys. Fodd bynnag, pe bai LlC yn mabwysiadu hawl datblygu a ganiateir am 60 diwrnod heb eithriadau ar gyfer y Parc Cenedlaethol, byddai angen i'r Awdurdod ystyried ail-fabwysiadu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ddiymdroi. Cadarnhawyd y byddai’r Swyddogion yn ymateb i ymgynghoriad LlC ar y cynnig 60 diwrnod i ofyn am eithrio’r Parciau Cenedlaethol a’r Ardaloedd o Harddwch Naturiol.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd**:

a) Cadarnhau’r Cyfarwyddyd arfaethedig o dan Erthygl 4(1) ar gyfer defnyddio tir am 28 diwrnod ar gyfer gwersylla, carafanau a/neu gartrefi symudol.
b) Cymeradwyo'r dogfennau canlynol i'w cyhoeddi - Atodiad A - Adroddiad ar yr Ymgynghori, Atodiad B - Papur Cefndir gydag atodiadau wedi'u diweddaru, ac Atodiad C - Asesiad o’r Effaith Integredig.
c) Nodi bod Atodiad D – Datganiad eglurhad (wedi’i gymeradwyo Mawrth 2025), Atodiad E – Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) gyda map (wedi’i lofnodi 11 Rhagfyr 2024), Atodiad F – Protocol Gweithio (wedi’i gymeradwyo 11 Rhagfyr 2024) ac Atodiad G – Nodyn Cyngor (wedi’i gymeradwyo 11 Rhagfyr 2024), wedi cael eu cyhoeddi.

[Gadawodd Charles Felgate, Cyfreithiwr yr Awdurdod, y cyfarfod yr adeg hon. Gadawodd y Cynghorydd A Tinley y cyfarfod adeg ystyried yr eitem ganlynol.]

[Gohiriwyd y cyfarfod o 11:30am – 11:42am]

**8. Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 3**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol adroddiad oedd yn ceisio cytundeb yr Aelodau i gynnal ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni drafft ar gyfer y CDLl newydd 3. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gefndir, manylion yr ymgynghoriad, a rhaglen arfaethedig.

Nododd Aelod bod ystyriaethau’r Gymraeg yn rhan o’r adroddiad eglurhaol a’r Cytundeb Cyflawni drafft oedd ynghlwm, a rhoddodd sawl awgrym ar sut i gryfhau’r adrannau hynny. Awgrymwyd cynnwys datganiad i gydnabod y datblygiadau diweddar yn y polisi ar y Gymraeg i

dynnu sylw at ymwybyddiaeth yr Awdurdod. Awgrymodd yr Aelodau sefydliadau ychwanegol i ymgynghori â hwy ac i fod yn rhan o’r broses, ac ymhlith y sefydliadau hyn roedd adrannau’r Llywodraeth ganolog, Urdd Gobaith Cymru, Ffermwyr Ifanc, Grwpiau Crefyddol a’r Fforwm Canolog 50+. Nododd y Swyddog awgrymiadau’r Aelodau gan wahodd awgrymiadau pellach gan yr Aelodau a’r cyhoedd.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd**:

a) Cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni drafft (Atodiad A) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.
b) Nodi’r Asesiad o’r Effaith Integredig (Atodiad B).

**9. Llythyr Cylch Gwaith**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn amlinellu Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru (LlC). Dywedwyd bod yr Awdurdod yn derbyn y rhan fwyaf o'i gyllid gan LlC, oedd yn amlinellu blaenoriaethau'r Awdurdod mewn Llythyr Cylch Gwaith. Yn 2022, derbyniodd yr Awdurdod lythyr Cylch Gwaith oedd yn cwmpasu Tymor y Llywodraeth (tan 2026). Fodd bynnag, ar gyfer blwyddyn olaf Tymor y Llywodraeth, derbyniwyd Llythyr Cylch Gwaith wedi'i ddiweddaru oedd, yn rhannol, yn amlygu heriau ariannol yr Awdurdod ac yn amlinellu’r meysydd i roi mwy o ffocws arnynt, ynghyd â'r dyraniad cyllideb.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y ddwy swydd wag oedd ar fin dod yn wag ar gyfer Aelodau a Benodir gan Lywodraeth Cymru a'r heriau fyddai'n debygol o godi o ran cael cworwm gan y byddai cyfnod y ddau Aelod presennol yn dod i ben ddiwedd mis Mai. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod disgwyl i Lywodraeth Cymru hysbysebu'r swyddi gwag cyn hir a bod digwyddiadau recriwtio i’w trefnu gan yr Awdurdod.

**Nodwyd.**

**10. Rhaglen Ffermio Bro yn y Tirweddau Dynodedig**

Cyflwynodd y Swyddog Cyswllt Cadwraeth Ffermio adroddiad oedd yn ceisio sefydlu Panel Asesu Lleol Ffermio Bro er mwyn cadarnhau ceisiadau i'r rhaglen dros £10,000 ac i sicrhau Llywodraethu cadarn. Dywedwyd y byddai’r cynllun Ffermio Bro (Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig) yn cael ei lansio fis Mai ym mhob Tirwedd Ddynodedig yng Nghymru, ac er mai Cynllun Cenedlaethol yw hwn, byddai gan bob tirwedd y disgresiwn i gyflawni'r cynllun yn erbyn ei hamcanion a'i blaenoriaethau.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog y byddai penderfyniad y Pwyllgor ar unrhyw gais yn derfynol. Ychwanegodd y

Swyddog y byddai pob cais a gymeradwyir yn cael ei gyflwyno i Taliadau Gwledig Cymru er mwyn osgoi unrhyw 'gyllido dwbl'.

Holodd Aelod a oedd cynllun ar waith i ddatblygu arbenigedd aelodau'r panel, a chadarnhaodd y Swyddog bod cyrsiau ar gael i helpu i ddatblygu sgiliau perthnasol. Ychwanegwyd, gan fod Ffermio Bro yn Gynllun Cenedlaethol, y byddai gan Swyddogion y cyfle i rannu arferion gorau ac adnoddau.

Yn dilyn trafodaeth, mynegodd y Cynghorwyr M James, D Clements, C George a Dr M Havard ddiddordeb mewn dod yn Aelodau o'r Panel Ffermio Bro. Cytunwyd i roi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd, gadarnhau aelodau'r panel, gan ystyried unrhyw newidiadau yn Aelodaeth yr Awdurdod yn dilyn Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Cyngor Sir Penfro a gynhelir cyn hir.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd**:

a) sefydlu Panel Asesu Lleol Ffermio Bro a mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl Cenedlaethol dyddiedig 6 Mawrth 2025.
b) penodi tri Aelod o'r Awdurdod ar y Panel.
c) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr wneud addasiadau angenrheidiol i aelodaeth y panel drwy ymgynghori â Chadeirydd y Panel.

**11. Amrywio Rheol Sefydlog**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn amlinellu amrywiad i reol sefydlog contractau 16 ar gyfer ailosod pont newydd yn lle'r bont droed oedd wedi'i difrodi ar hawl tramwy gyhoeddus oedd ar gau dros dro ar y pryd. Dywedwyd bod pont droed allweddol wedi'i dinistrio gan sawl coeden yn cwympo yn ystod Storm Darragh, a bod yr hawl tramwy gyhoeddus yn Nhrewyddel wedi'i chau yn sgîl hynny er diogelwch y cyhoedd. Prynwyd pont newydd i sicrhau y gellid ailagor y llwybr cyn y prif dymor torri llystyfiant.

Cytunodd yr Aelodau, o ganlyniad i'r elfen iechyd a diogelwch, bod caffael y bont droed newydd yn opsiwn synhwyrol. Awgrymwyd adolygu'r rheolau sefydlog i gynnwys cymal ar gyfer amgylchiadau eithriadol megis y rhain, a nodwyd hyn gan y Prif Weithredwr.

**Nodwyd.**

**12. Fferm Ynni Gwynt Arnofiol Llŷr ar y Môr**

Dywedodd y Cadeirydd, yn dilyn gwybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd oddi wrth yr ymgeiswyr, nad oedd y Swyddogion bellach o'r

farn bod angen ystyried yr adroddiad mewn sesiwn breifat, a chytunodd yr Aelodau â hyn.

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio (Cynllunio Strategol) adroddiad oedd yn gofyn am farn yr Aelodau ynghylch a ddylid cadw'r gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig fel y'i cofrestrwyd yn flaenorol neu ddiwygio'r sefyllfa ar ôl ystyried y wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd.

Dywedwyd bod yr Aelodau, fis Mawrth 2025, wedi cymeradwyo cyflwyno'r ymateb i'r ymgynghoriad ar y caniatâd sy'n ofynnol ar gyfer prosiect Fferm Ynni Gwynt Arnofiol Llŷr ar y Môr, oedd yn nodi bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig oherwydd yr effeithiau andwyol ar y morwedd, y dirwedd ac ar y rhinweddau arbennig na ellid eu lliniaru. Nodwyd yn yr adroddiad bod yr ymateb hwn wedi'i gyflwyno i PEDW, a ymatebodd y byddai gofyn cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus o ganlyniad i wrthwynebiad yr Awdurdod.

Eglurodd y Swyddog, ers derbyn ymateb PEDW, bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r ymgeiswyr i drafod pryderon yr Awdurdod, a bod yr ymgeiswyr wedi rhoi eglurhad pellach. O ganlyniad i'r wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd, oedd wedi'i dosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod, roedd yr ymgeiswyr wedi gofyn am i'r Aelodau ailystyried eu gwrthwynebiadau i'r cynllun.

Bu trafodaeth i ddilyn ynghylch manteision gwrthwynebiad yr Awdurdod a'r pwysau o ran sicrhau gostyngiadau i'r cynllun gan yr ymgeiswyr megis yr ymrwymiad i'r uchder uchaf arfaethedig. Hefyd trafodwyd anfanteision gwrthwynebiad yr Awdurdod, a chadarnhaodd y Swyddog y gallai dal fod angen Ymchwiliad Cyhoeddus pe bai'r Awdurdod yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl gan y gallai fod gan bartneriaid eraill bryderon tebyg yn ogystal.

Awgrymodd yr Aelodau y dylid ceisio sicrwydd pellach gan yr ymgeiswyr, a bod cais am iawndal ychwanegol ar gyfer yr ardal, ac adolygiad ôl-weithredol, yn cael eu cynnwys yn ymateb yr Awdurdod i'r cynllun.

Cytunwyd y dylid adolygu polisi'r Awdurdod ar Ffermydd Gwynt ar y Môr i gynorthwyo penderfyniadau'r Aelodau eto fyth yn y dyfodol.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd** tynnu gwrthwynebiad yr Awdurdod i'r Prosiect Fferm Ynni Gwynt Arnofiol Llŷr ar y Môr yn ôl a'i ddiwygio i sefyllfa o bryder, a'r amod bod adolygiad yn cael ei gynnal ar ôl y gwaith adeiladu, a bod iawndal pellach yn cael ei dalu ar gyfer yr ardal leol.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 18/06/2025 heb eu diwygio.